Uchafbwyntiau llwybr Meisgyn



Gan ddechrau yng nghanol hanesyddol Meisgyn, ewch allan ar hyd Stryd yr Ysgol heibio Eglwys Dewi Sant ac i fyny at y tro i'r dde i mewn i'r Chestnuts. Os ydych am barhau am tua 150m gallwch weld ysgol gynradd Fictoraidd Meisgyn (bellach wedi'i throsi'n fflatiau) ond mae ein taith yn mynd i mewn i'r Chestnuts ac i fyny'r bryn.

Yn fuan ar ôl cyrraedd y copa, cymerwch y llwybr troed ar y chwith i mewn i gae. Dilynwch y llwybr hwn drwy giât ac ar hyd ochr y bryn. Ar ôl peth amser, parhewch i fyny'r llethr i fwlch yn y coed.

Yn y coed i'r dde mae adfeilion yr hyn a elwir yn fynachlog Sant Cawdraf. Gallai hyn fod yn blasty canoloesol ond gallai yr un mor hawdd fod yn ffug a grëwyd gan Iolo Morgannwg ar ddiwedd y 18fed ganrif. Parhewch ar hyd y llwybr nes cyrraedd y ffordd a chroesi i'r cae gyferbyn.

Cerddwch ar hyd ochr chwith y caeau ac wedyn drwy'r llwybr yn y coed. Wrth i chi ddod allan mae carreg sefyll ar eich ochr dde. Symudwyd hon yma yn ystod adeiladu'r M4 gerllaw.

Parhewch ar hyd ochr chwith y cae ac yna croeswch i'r ochr dde pellaf lle byddwch yn dod o hyd i giât siglo y tu ôl i dderwen fawr. Ewch i'r dde ar y lôn ac heibio'r ganolfan gynadledda a Maenordy Meisgyn.

Cymerwch y llwybr troed heibio'r bythynnod ac i mewn i'r coed. Dyma'r llwybr gwreiddiol i mewn i'r tŷ o Feisgyn.

Pan ddaw'r llwybr allan o'r coed byddwch yn mynd heibio Clwb Criced Maenordy Meisgyn. Parhewch ar hyd y llwybr ac i fyny drwy'r stad dai hyd at y brig. Ewch trwy'r lôn i'r chwith o'r garej ac yn ôl i ganol Meisgyn.